**LC686**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 yn darparu ar gyfer peidio â chodi taliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac ar gyfer talu treuliau teithio mewn achosion penodol. Mae'r rheoliadau presennol yn gwneud diwygiadau manwl i'r rheoliadau hynny fel y'u hamlinellir yn y nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, bu'n bosibl i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor nodi nifer o bwyntiau sydd wedi'u hystyried erbyn hyn. Felly, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd y sylwadau a wnaeth yn ei adroddiad LC341 ar y set ddiwethaf o reoliadau diwygio (SI 2001/3322 (W.275)) -

> "Mae testun Rheoliadau 1988 bellach yn hynod o astrus gan fod diwygiadau gwahanol wedi'u gwneud ar gyfer Cymru a Lloegr. Effaith hyn yw bod testun y rheoliadau fel y maent yn gymwys yng Nghymru yn sylweddol wahanol i'r testun sy'n gymwys yn Lloegr. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yn ychwanegu at y gwahaniaethau hyn.
>
> Gan hynny awgrymir y dylid ystyried gwneud ailddeddfiad sydd wedi'i gydgrynhoi o Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru."

Glyn Davies AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

10 Mehefin 2003